



Department  
of Health

# Mwy o wybodaeth am FGM

[More information about FGM \(Welsh\)](#)

Mae Llurgunio Organau Rhywiol Merched (FGM) yn driniaeth pan wneir niwed i organau rhywiol merched neu eu newid, ond nid oes rheswm meddygol dros hyn. Gall niweidio iechyd menywod a merched yn ddifrifol yn yr hirdymor. Bydd rhai merched yn marw o golli gwaed neu heintiad fel canlyniad uniongyrchol i'r driniaeth. Bydd menywod sydd wedi profi FGM hefyd yn debygol o brofi anawsterau wrth eni plentyn.

Fel arfer gweithredir FGM ar ferched rhwng 5 a 10 oed. Gellir ei alw yn enwaediad benywaidd, torri neu mewn termau eraill fel sunna, gudniin, halalays, tahur, megrez a khitan yn ogystal ag enwau eraill.

## Mathau o FGM:

Math 1 – tynnu peth neu'r cyfan o'r clitoris

Math 2 – tynnu peth neu'r cyfan o'r clitoris a'r labia bach (y "gweflau" sy'n amgylchynu'r fagina).

Math 3 – tynnu peth neu'r cyfan o'r organau rhywiol benywaidd, yn cynnwys y clitoris. Gwnio'r ochrau gyda'i gilydd i adael twll bychan.

Math 4 – pob math arall o niwed, yn cynnwys torri, llosgi, crafu, pigo ac ymestyn yr organau rhywiol benywaidd.

## Pam bod FGM yn digwydd?

Fel arfer rhieni merch neu ei theulu estynedig sy'n trefnu iddi gael FGM. Mae'r rhesymau am wneud hyn yn cynnwys:

- arferiad
- crefydd
- diogelu traddodiad
- diogelu gwryfydod
- glendid
- diogelu anrhydedd teulu
- derbyniad cymdeithasol, yn enwedig yng nghyswllt priodas

Mae'r rhesymau hyn am FGM wedi eu seilio ar gamddealltwriaeth neu ddiffyg ymwybyddiaeth.

Mae rhai yn credu bod FGM yn ofynnol fel rhan o'u crefydd, er enghraifft mae Math 1 FGM weithiau yn cael ei alw'n *sunna* fel camgymeriad. Ond nid oes **un** testun crefyddol sy'n cefnogi FGM neu ddweud y dylid cyflawni hyn.

## Mae FGM yn anghyfreithlon

Mae FGM yn anghyfreithlon a rhaid **peidio fyth** ei weithredu yma na thramor. Mae hefyd yn anghyfreithlon i helpu rhywun gyflawni FGM mewn unrhyw fodd. Bydd unrhyw un a geir yn euog o hyn yn wynebu hyd at 14 blynedd mewn carchar a/neu ei ddirwyo (cael ei orfodi i dalu cosb ariannol).

## Mae FGM yn achosi niwed difrifol i'ch iechyd

Mae FGM yn achosi niwed difrifol i ferched a menywod, yn cynnwys:

- poen drwy'r amser
- heintiadau ail-adroddus all arwain at anffrwythlondeb
- gwaedu, tyfiannau a chrawniadau
- problemau pasio dŵr neu anymataliad
- iselder, ôl-fflachiadau, hunan-niweidio
- problemau wrth eni all arwain at farwolaeth

## Pa help allwch chi ei gael?

Os ydych wedi cael triniaeth FGM, gallwch ofyn am help meddygol a chefnogaeth gan eich Meddyg Teulu neu unrhyw weithiwr proffesiynol gofal iechyd arall. Gallwch ofyn am help gan eich bydwaig os ydych yn feichiog.

Gallwch hefyd gael manylion am glinigau FGM a gwasanaethau arbenigol yn [www.nhs.uk/fgm](http://www.nhs.uk/fgm).

**Os ydych yn pryderu am unrhyw ferch allai fod dan risg o ddioddef FGM, dywedwch wrth y gweithiwr proffesiynol iechyd sy'n eich trin neu ffoniwch linell gymorth NSPCC 0800 028 3550, 24awr y dydd.**

**Os ydych yn pryderu y bydd eich teulu neu'ch cymuned yn rhoi pwysau arnoch i weithredu FGM ar eich merch, gofynnwch i'ch Meddyg Teulu, ymwelydd iechyd neu unrhyw weithiwr proffesiynol gofal iechyd arall am help.**

## Pasbort Iechyd

Gallwch ofyn am gopiâu o 'A statement opposing Female Genital Mutilation'. Datganiad printiedig maint poced yw hwn ar gael mewn 11 iaith y gallwch fynd ag ef gyda chi pan fyddwch yn mynd dramor. Gallwch ei ddangos i'ch teulu. Mae'n ei gwneud yn glir bod FGM yn drosedd ddifrifol yn y DU.

## Casglu a defnyddio gwybodaeth gan gleifion sydd ag FGM

Mae NHS Digital yn casglu data am FGM yn Lloegr ar ran yr Adran Iechyd a GIG Lloegr. Gelwir y casgliad data hwn yn Set Ddata Fanylach FGM – [www.content.digital.nhs.uk/fgm](http://www.content.digital.nhs.uk/fgm). Defnyddir y data a gesglir i gynhyrchu gwybodaeth fydd yn gymorth i wella'r modd y mae'r GIG yn gofalu am fenywod a merched sydd wedi profi FGM neu dan risg o hynny.

Bydd NHS Digital yn casglu peth 'gwybodaeth gyfrinachol bersonol' amdanoch chi fel eich enw, dyddiad geni, rhif GIG a gwlad enedigol. Bydd hefyd yn casglu gwybodaeth sy'n benodol i FGM. Bydd hyn yn cynnwys y math o FGM, eich oedran pan ddigwyddodd FGM, ym mha wlad y digwyddodd hynny ac unrhyw hanes teuluol o FGM.

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i Feddygon Teulu a darparwyr gofal iechyd eraill ddarparu'r wybodaeth hon i NHS Digital, fodd bynnag gallwch wrthwynebu i'ch gwybodaeth gyfrinachol bersonol gael ei rhannu. Gallwch siarad gyda'ch gweithiwr iechyd proffesiynol am sut i wneud hyn. Neu i ddarganfod mwy am y modd y caiff eich data ei ddefnyddio a'i reoli, yn cynnwys sut y bydd NHS Digital yn cynnal cyfrinachedd y wybodaeth, ac i nodi unrhyw wrthwynebiadau ewch i:

[www.content.digital.nhs.uk/patientconf](http://www.content.digital.nhs.uk/patientconf)

**Os hoffech ragor o wybodaeth am FGM, ewch i [www.nhs.uk/fgm](http://www.nhs.uk/fgm)**

© Hawlfraint y Goron 2016

2905952 - Welsh 11/16

Cynhyrchwyd gan Williams Lea ar gyfer yr Adran Iechyd

[www.dh.gov.uk/publications](http://www.dh.gov.uk/publications)